

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis,  
Heather Williams ac Ifan Wyn.

**76. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ken Hawkins a John Wynne Hughes.

**77. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**78. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020 yn gywir.

**79. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**80. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.

02/2020/0134 - Dalcairn, Pen y Maes – Adeiladu estyniad i'r annedd – Caniatawyd

02/2020/0247 & 0249 - 18 Stryd y Castell – Adeiladu ystafell haul un llawr yn lle'r ystafell haul sy'n bodoli eisoes – Caniatawyd

02/2020/0269 - Voel View, 160 Stryd Mwrog – Estyniad ac addasiadau i'r annedd i ffurfio tri eiddo teras dwy ystafell wely – Caniatawyd

**81. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd y Pwyllgor y cais a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

**PENDERFYNWYD:** *nad oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau isod.*

**02/2020/0431 – Woodstock, 2 Maes Cantaba, Rhuthun**

Codi estyniadau ac addasiadau i'r annedd

**02/2020/0116 – Eglwys Sant Pedr, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun**

Gwaith ar wahanol goed a thorri un goeden cipryswyddden (T40) yn Ardal Gadwraeth Rhuthun

Roedd yr aelodau'n dymuno cyflwyno'r sylwadau a ganlyn ynghylch y cais isod:

**02/2019/1056 – Llain Bowlio a Chwrt Tennis blaenorol, y tu ôl i The Bungalow, Stryd y Castell, Rhuthun – ailymgynghori ar sail cynlluniau/dogfennau ychwanegol/diwygiedig**

Codi annedd sengl a gwaith cysylltiedig

*Mae'r aelodau'n parhau'n bryderus am effaith niweidiol yr annedd arfaethedig ar eiddo cyfagos, yn cynnwys Nantclwyd y Dre, oherwydd ei raddfa a'i faint. Dymunant annog y datblygwr i ailystyried y dyluniad fel bod yr eiddo newydd yn un deulawr, dim uwch na waliau'r ardd gyfagos.*

**02/2020/0123 – Tir nesaf at 73A Erw Goch, Rhuthun**

Codi annedd, ffurfio mynediad a gwaith cysylltiedig

*Roedd yr aelodau'n parhau i deimlo fod hyn yn cynrychioli datblygu amhriodol ac y byddai'n gorddatblygu'r safle. Byddai'n arwain at ddiffyg gwagle amwynder ar gyfer yr annedd newydd.*

**02/2020/0282 – The Nook, Bryn Goodman, Rhuthun**

Dymchwel yr annedd presennol a chodi 4 fflat preswyl gyda pharcio cysylltiedig a mynediad i'r cefn.

*Byddai'r cynnig arfaethedig yn gorddatblygu'r safle, ac ni fyddai'n cyd-fynd â chymeriad yr eiddo eraill cyfagos. Byddai'n achosi cynnydd yn y traffig. Mynegwyd pryder hefyd a yw'r cynlluniau ar gyfer mynediad i eiddo yn y cefn yn ddichonadwy o ystyried y coed ar y safle. Roedd yr aelodau o'r farn fod angen adroddiad arolwg coed proffesiynol.*

**82. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 7 Medi 2020 am 7.45pm.*